Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau
Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Drama a Theatr

Time allowed: 1.5 hours (90 minutes)

Atebwch Unrhyw 2 Gwestiwn

1. Ysgrifennwch adolygiad o berfformiad theatr yr ydych wedi'i weld yn ddiweddar. Dylech ddefnyddio'r cwestiynau canlynol i'ch helpu i ddatblygu eich adolygiad:

   Beth oedd nodwedd gyffredinol y *mise-en scène*?
   Beth oedd trefn y llwyfannu a sut oedd hyn yn helpu i lunio'r berthynas rhwng y perfformiwr a'r gynulleidfa?
   Pa wrthrychau, cynllunio set, cyfryngau neu dechnoleg, goleuadau, gwisgoedd oedd yno?
   Pa fathau o berfformio roedd yr actorion/perfformwyr yn eu gwneud?
   Actio/heb fod yn actio/yn seiliedig ar dasg/perfformiad corfforol.
   Beth oedd swyddogaeth cerddoriaeth/sŵn/tawelwch?
   Beth oedd y stori oedd yn cael ei chyflwyno a sut oedd y llwyfannu yn helpu i adrodd y stori?
   A oedd testun? Os oedd, sut oedd hwn yn helpu i adrodd y stori? Os na, pa elfennau eraill o'r perfformiad y gellir eu hystyried fel 'testun' ar gyfer y perfformiad?
   Beth oedd ymateb y gynulleidfa i'r perfformiad? Beth oedd eich disgwyliadau cyn gweld y perfformiad a sut oeddech chi'n teimlo wedi hynny?

2. Trafodwch pam yn eich barn chi mae cynyrchiadau theatr gerdd yn *genre* theatr mor boblogaidd. Dylech ddefnyddio esiamplau o gynyrchiadau i ategu'ch safbwynt.

3. Mae'r theatr bob amser yn wleidyddol - trafodwch

4. Trafodwch sut y byddech yn datblygu ac addasu drama hanesyddol i gynulleidfa theatr gyfoes. Dylech ddefnyddio testun un ddrama (Shakespeare, Ibsen, Chekhov neu ddramodydd arall) yn destun i'ch astudiaeth achos.

5. Rydych chi'n gweithio mewn *ensemble* o 6 perfformiwr ac wedi cael y thema 'Cartref' fel man cychwyn. Disgrifiwch sut y buasech yn cynllunio darn

ensemble ar y thema hon. Rhaid i chi gynnwys sut y buasech yn mynd ati i ymchwilio, dyfeisio prosesau, strategaethau ymarfer, y gynulleidfa a'r llwyfannu a phroblemau posib a allai godi o weithio mewn grŵp.

6. Beth yw eich dealltwriaeth chi o ddau o'r termau canlynol: realaeth, naturoliaeth, mynegiadaeth, theatr yr afreswm a/neu theatr ôl-ddramatig? Lle bo'n briodol, dylech gyfeirio at destunau dramâu, cynyrchiadau neu ddigwyddiadau perfformio rydych chi wedi'u gweld i ategu eich ateb.